*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 79(2) o Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

---

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U  D R A F F T

---

# 2021 Rhif (Cy. )

# TRETH TRAFODIADAU TIR, CYMRU

## Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Swm Penodedig o Rent Perthnasol) (Cymru) (Diwygio) 2021

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Swm Penodedig o Rent Perthnasol) (Cymru) 2018 ("Rheoliadau 2018") er mwyn diwygio swm y rhent perthnasol a bennir yn rheoliad 2 o'r Rheoliadau hynny.

Mae Rheoliadau 2018 yn pennu swm y rhent perthnasol o dan baragraff 36(1)(b) o Atodlen 6 i Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017, at ddibenion diffinio "y swm penodedig" ym mharagraffau 34 a 35 o'r Atodlen honno.

Mae rheoliad 4 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio swm y rhent perthnasol a bennir yn rheoliad 2 o Reoliadau 2018 o £9,000 i £13,500 o'r dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym. O ran trafodiadau â dyddiad effeithiol sy'n digwydd cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym, bydd y swm blaenorol o £9,000 yn dal yn gymwys.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth Lywodraeth Cymru,

Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ ac ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.llyw.cymru.

*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 79(2) o Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U   D R A F F T

# 2021 Rhif (Cy. )

# TRETH TRAFODIADAU TIR, CYMRU

## Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Swm Penodedig o Rent Perthnasol) (Cymru) (Diwygio) 2021

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | ***** |
| *Yn dod i rym* | *yn unol a rheoliad 1* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 78(1) o Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 a pharagraff 36(1)(b) o Atodlen 6 iddi(**1**).

Yn unol ag adran 79(2) o'r Ddeddf honno, cafodd drafft o'r Rheoliadau hyn ei osod gerbron Senedd Cymru a'i gymeradwyo drwy benderfyniad ganddi(**2**).

**Enwi a chychwyn**

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Swm Penodedig o Rent Perthnasol) (Cymru) (Diwygio) 2021 a deuant i rym drannoeth y diwrnod y'u gwneir.

(**1**) 2017 dccc 1.
(**2**) Mae'r cyfeiriad yn adran 79(2) at Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn cael effaith fel cyfeiriad at Senedd Cymru, yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

### Dehongli

**2.** Mae i eiriau ac ymadroddion a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn yr un ystyr ag sydd iddynt yn Neddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017.

### Cymhwyso

**3.** Mae'r diwygiad a wneir gan reoliad 4 yn gymwys i'r trafodiadau hynny sydd â dyddiad effeithiol sy'n digwydd ar ôl i'r Rheoliadau hyn ddod i rym yn unig.

### Diwygio Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Swm Penodedig o Rent Perthnasol) (Cymru) 2018

**4.**—(1) Mae Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Swm Penodedig o Rent Perthnasol) (Cymru) 2018([1]) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2 (swm penodedig o rent perthnasol), yn lle "£9,000" gosoder "£13,500".

*Enw*
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, un o Weinidogion Cymru
Dyddiad

---

(**1**) O.S. 2018/133 (Cy. 34)